WG40442

Llywodraeth Cymru

# Adroddiad Ymgynghori: Crynodeb

# Drafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Awst 2020

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

’**Dyfodol Cymru – y Cynllun Cenedlaethol 2040**’ fydd enw ein fframwaith datblygu cenedlaethol cyntaf pan gaiff ei gyhoeddi. Cafodd y ddogfen hon ei pharatoi cyn ei chyhoeddi ac mae’n defnyddio’r enw ‘fframwaith datblygu cenedlaethol’ a’r ‘FfDC’ drwyddo. Er crisialu’r ystyr, cymerir bod pob cyfeiriad at y fframwaith datblygu cenedlaethol yn golygu Dyfodol Cymru – y Cynllun Cenedlaethol 2040.

## Cyflwyniad

Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn gynllun 20 mlynedd ar gyfer Cymru hyd at 2040. Bydd yn mynd i'r afael â materion mawr sy'n bwysig i Gymru, gan gynnwys tai, ynni, yr economi, trafnidiaeth a'r amgylchedd. Bydd yn nodi lle y dylid lleoli datblygiadau o bwys cenedlaethol, Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol, pa seilwaith a gwasanaethau sydd eu hangen a sut y gall Cymru gyfrannu at y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

## Pwrpas y ddogfen

Gwnaethom ymgynghori ar yr NDF drafft rhwng Awst a Thachwedd 2019. Wedi i ymgynghoriad ddod i ben bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori yn amlinellu'r hyn a ddywedwyd gan ymatebwyr a sut yr ydym yn bwriadu defnyddio'r adborth. Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o'r Adroddiad Ymgynghori llawn. Oherwydd y nifer fawr iawn o ymatebion, mae'r adroddiad llawn bron i 250 tudalen o hyd. Mae'r crynodeb hwn yn nodi sut y gwnaethom ymgynghori, faint a phwy a ymatebodd, a beth oedd y prif faterion a godwyd. Mae hefyd yn crynhoi'r prif newidiadau yr ydym yn bwriadu eu gwneud i'r FfDC.

Mae'r Adroddiad Ymgynghori llawn yn nodi ymatebion yn thematig, ac mae'n cynnwys dadansoddiad ystadegol ac ansoddol o'r sylwadau a dderbyniwyd. Mae hefyd yn cynnwys dyfyniadau o'r ymatebion, gan dynnu sylw at yr ystod eang o safbwyntiau a fynegwyd. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei hymateb ar bob agwedd ar yr ymgynghoriad, gan egluro unrhyw newidiadau rydym yn bwriadu eu gwneud i'r FfDC.

## Sut gwnaethon ni ymgynghori

Cyhoeddwyd drafft y FfDC ar 7 Awst 2019 a gwahoddwyd pobl i roi sylwadau a rhoi adborth trwy ymgynghoriad cyhoeddus tan 15 Tachwedd 2019. Defnyddiodd Llywodraeth Cymru gyfryngau traddodiadol a chymdeithasol ac ysgrifennom yn uniongyrchol at gannoedd o gyrff cyhoeddus, busnesau, sefydliadau ac aelodau. o'r cyhoedd i'w hysbysu o'r ymgynghoriad. Fe wnaethom drefnu nifer o sesiynau cyhoeddus ledled y wlad i roi cyfle i bobl drafod y FfDC gydag aelodau o'r tîm a baratôdd y ddogfen. Fe wnaethom hefyd fynychu nifer o ddigwyddiadau a drefnwyd gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.

Mae cofnod llawn o'r digwyddiadau a drefnwyd ac a fynychwyd gan dîm y FfDC ar gael ar dudalennau gwe'r FfDC.


**Argaeledd a hygyrchedd y dogfennau ymgynghori**

Ategwyd y digwyddiadau ymgysylltu a'r ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o'r FfDC drafft trwy wneud yr FfDC yn hygyrch ar draws nifer o wahanol fformatau. I gynorthwyo'r ymgynghoriad, cyhoeddwyd y dogfennau a ganlyn:

- Drafft y FfDC (ar gael ar-lein ac mewn print)
- fersiwn ‘hawdd ei ddarllen’ o’r ddrafft y FfDC (ar gael ar-lein ac mewn print)
- crynodeb pobl ifanc o ddrafft y FfDC (ar gael ar-lein)
- taflen yn nodi cefndir y FfDC ac yn crynhoi cynnwys drafft y FfDC (ar gael mewn print)
- fersiynau llawn a chryno o'r adroddiadau Gwerthuso Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (ar gael ar-lein ac mewn print)
- fersiynau llawn a hawdd eu darllen o'r ffurflen ymateb ymgynghoriad (ar gael ar-lein ac mewn print)

**Ymatebion i’r ymgynghoriad**

Derbyniwyd cyfanswm o 1088 o ymatebion.  Daeth yr ymatebion o ystod a fathau o ymatebwyr, fel y dangosir isod:



**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau**

Yn ogystal ag ymatebion o'r ymgynghoriad cyhoeddus, derbyniodd Llywodraeth Cymru adroddiad yn nodi 51 o gasgliadau gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd a llythyr gan Bwyllgor yr Economi, seilwaith a Sgiliau. Gellir gweld ymateb manwl Llywodraeth Cymru i'r casgliadau a'r pwyntiau a wnaed gan y ddau bwyllgor yn yr Adroddiad Ymgynghori llawn.

**Materion a godwyd yn yr ymatebion**

Casglwyd adborth meintiol ac ansoddol drwy'r holiadur a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Gofynnwyd 15 cwestiwn yn yr holiadur yn seiliedig ar themâu gan gynnwys cwestiynau ar y Canlyniadau, y strategaeth ofodol, yr holl feysydd polisi, y cyd-destun cynllunio rhanbarthol a'r broses asesu effaith statudol. Defnyddiodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yr holiadur i ymateb i'r ymgynghoriad; cyflwynodd y gweddill ymatebion heb ddefnyddio'r holiadur.

Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda chwmni arbenigol, *Strategic Research and Insight Ltd*, i ddadansoddi'r holl ymatebion. Fe wnaeth yr ymarfer hwn ein galluogi i baru ymatebion nad oeddent yn defnyddio'r holiadur â'r ymatebion i gwestiynau penodol ar yr holiadur, i'n helpu i ddeall yr ystod gyfan o farnau a safbwyntiau a gyflwynwyd.

Mae'r Adroddiad Ymgynghori llawn yn adlewyrchu strwythur thematig yr holiadur ymgynghori a threfn y FfDC drafft. Ar gyfer pob cwestiwn ymgynghori, mae'r adroddiad yn nodi:

- y cwestiwn / cwestiynau a osodwyd yn yr holiaduron llawn a hawdd eu darllen
- data o ymatebion holiaduron ar nifer a chanran yr ymatebwyr a gytunodd ac a oedd yn anghytuno â phob cwestiwn
- y prif themâu sy'n deillio o ymatebion holiaduron
- crynodeb o'r sylwadau a gyflwynwyd a dyfyniadau dethol o ymatebion i'r holiadur
- crynodeb o sylwadau a dyfyniadau dethol o ymatebion nad oeddent yn defnyddio'r holiadur
- ymateb Llywodraeth Cymru, yn nodi a yw newidiadau yn cael eu cynnig i'r FfDC ac i bolisïau penodol.
- croesgyfeiriad at gasgliadau a materion cysylltiedig a godwyd gan bwyllgorau'r Senedd.

Y materion a dynnodd y nifer uchaf a'r ymatebion cryfaf oedd:

- Y dull a'r polisïau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd;

- Yr ôl troed ar gyfer cynllunio rhanbarthol;
- Yr ymagwedd tuag at ardaloedd gwledig, a chefnogaeth ar gyfer datblygu'r economi wledig;
- Canfyddiad fod diffyg manylder / tystiolaeth yn y FfDC
- Y dull o fuddsoddi mewn seilwaith fel trafnidiaeth
- Materion datblygu economaidd fel tai ac effaith ar dwristiaeth

Mae’r adborth trwy'r ymgynghoriad cyhoeddus a chan Bwyllgorau'r Senedd wedi llywio newidiadau arfaethedig i ddrafft y FfDC. Mae crynodeb o'r newidiadau hynny wedi eu cynnwys yn y ddogfen gryno hon. Mae Atodlen y Newidiadau yn dangos yr holl newidiadau arfaethedig, ac fe’i gyhoeddir wrth ochr yr Adroddiad Ymgynghori llawn.

**Gwerthusiad Integredig Cynaliadwyedd (ISA) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)**

Gofynnodd yr holiadur ymgynghori hefyd am adborth ar broses ac adroddiadau y ISA ac HRA. Mae'r adroddiad ymgynghori yn nodi themâu, yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd ac yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru. Mae'r ISA a'r HRA wedi'u diweddaru, ac maent yn cynnwys asesiadau cynhwysfawr o'r polisïau diwygiedig a'r polisïau newydd arfaethedig.

**Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: rhestr o’r prif newidiadau arfaethedig**

**Ebrill 2020**

| | Cwmpas y newid | Pa rannau o'r FfDC Drafft sy'n cael eu heffeithio | Sut y bydd y newid yn effeithio ar yr FfDC diwygiedig |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ôl-troed Rhanbarthol**<br><br>Mae rhanbarth Canolbarth a De Orllewin Cymru wedi'i rannu'n ddau ranbarth ar wahân:<br><br>1. Canolbarth Cymru, sy'n cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol, Ceredigion a Powys;<br><br>2. Y De-orllewin, sy'n cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Sir Penfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Castell-nedd Port Talbot. | Diagram strategol - tudalen 25<br><br>Diagram rhanbarthol - tudalen 44<br><br>Adran ar Ganolbarth a De Orllewin Cymru - tudalennau 55-60 | • Polisi arfaethedig newydd 1 - ‘Lle bydd Cymru’n tyfu’. Mae hyn yn sefydlu'r strategaeth ofodol ar ffurf polisi<br>• Rhannau ar wahân ar gyfer Canolbarth Cymru a'r De Orllewin ym mhennod 5<br>• Diagramau strategol newydd ar gyfer:<br>1. Canolbarth Cymru<br>2. Y De Orllewin<br>• Polisïau arfaethedig newydd ar gyfer Canolbarth Cymru<br>• Ardaloedd Twf Rhanbarthol ychwanegol wedi'u nodi yng Nghanolbarth Cymru<br>• Polisïau diwygiedig ar gyfer Y De Orllewin<br>• Mae’r adran ym mhennod 1 ar strwythur y ddogfen yn cyflwyno'r rhanbarthau ychwanegol<br>• Mae gwybodaeth gyd-destunol Pennod 2 yn cydnabod y ddau ranbarth<br>• Diagram strategol cenedlaethol diwygiedig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2** | **Ynni**<br><br>Fframwaith polisi a dull gofodol diwygiedig ar gyfer ynni adnewyddadwy. Polisi newydd sy'n darparu'r cyd-destun ar gyfer penderfyniadau ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.<br><br>Cefnogaeth i ddatblygiadau ynni penodol yn y Gogledd Orllewin. | Polisïau 10, 11, 12, 13, 22 | • 'Meysydd Blaenoriaeth' wedi'u hadolygu ac bellach wedi'u henwi'n 'Ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw'<br>• Sail polisi ar wahân ar gyfer ynni gwynt ar y tir ac ynni'r haul<br>• Ffocws newydd ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol<br>• Polisi newydd sy'n annog cynhyrchu a phrofi ynni carbon isel ac adnewyddadwy ar Ddyfrffordd y Ddau Gleddau (Polisi arfaethedig 32). Mae'r polisi hwn yn cyfateb i Bolisi drafft 22 - Gogledd Orllewin Cymru ac Ynni (Polisi arfaethedig 24)<br>• Cyfeiriad penodol newydd fod cefnogaeth mewn egwyddor i ddatblygiadau yn ymwneud â Ynys Ynni Môn, Wylfa Newydd a Trawsfynydd |
| **3** | **Materion gwledig**<br><br>Polisïau newydd ar gyfer ardaloedd gwledig a gwell cydnabyddiaeth trwy'r ddogfen o'r weledigaeth gadarnhaol ar gyfer datblygu mewn lleoedd gwledig. | Canlyniadau 2 a 3<br><br>Polisi 4<br><br>Pob pennod ranbarthol | • Polisïau ar wahân ar (1) cefnogi cymunedau gwledig - Polisi arfaethedig 4; (2) cefnogi'r economi wledig - Polisi arfaethedig 5<br>• Polisïau newydd ar gyfer Canolbarth Cymru i fynd i'r afael â materion gwledig yno<br>• Testun newydd sy'n mynd i'r afael â rhannau gwledig yr holl ranbarthau ym Mhennod 5 |
| **4** | **Trafnidiaeth**<br><br>Mwy o ffocws ar seilwaith trafnidiaeth a chysylltedd, gyda pholisïau cenedlaethol newydd ym Mhennod 4. | Canlyniad 7<br>Polisi 7<br>Polisïau 20, 25, 32<br>Polisïau 21, 26, 31 | • Polisïau trafnidiaeth newydd ym Mhennod 4 - Strategaeth Ofodol.<br>1. Cysylltedd rhyngwladol - Polisi arfaethedig 10; wedi'i seilio'n fras ar Bolisïau drafft 20, 25 a 32 yr FfDC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 2. Cysylltedd cenedlaethol - polisi arfaethedig 11; polisi newydd gyda Pholisi drafft 7 FfDC wedi'i ymgorffori<br>3. Cysylltedd rhanbarthol - Polisi arfaethedig 12; polisi newydd i ddarparu cyd-destun ar gyfer polisïau rhanbarthol, (Polisïau drafft FfDC 21, 26, 31) |
| **5** | **Perygl llifogydd**<br><br>Polisi cenedlaethol newydd ym Mhennod 4 a chyfeiriadau cryfach ym mhob adran rhanbarthol ym Mhennod 5. | | • Polisi newydd ar reoli risg llifogydd - Polisi arfaethedig 8<br>• Disgrifiadau manylach o risgiau gofodol penodol ym mhob un o'r rhanbarthau, ym Mhennod 5 |
| **6** | **Rôl a swyddogaeth yr FfDC**<br><br>Esboniadau ychwanegol trwy'r ddogfen ar sut mae'r FfDC yn cyd-fynd â chynlluniau a strategaethau eraill Llywodraeth Cymru. | Pennod 1<br>Pennod 4, Pennod 5 - Pob polisi | • Diwygiadau i Bennod 1, gan nodi sut mae'r FfDC yn gysylltiedig â:<br>- Polisi Cynllunio Cymru<br>- Y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol<br>- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru<br>- Strategaeth Drafnidiaeth Cymru<br>• Holl bolisïau FfDC i ddangos cyfeiriad byr at adran(nau) Polisi Cynllunio Cymru y maent yn uniongyrchol gysylltiedig â hwy |
| **7** | **Cyfleoedd a Heriau FfDC**<br><br>Cyflwyniad mwy gweledol a gofodol o'r heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n llywio'r FfDC. | Pennod 2 | • Diwygiadau i Bennod 2<br>• Ystyriaeth well o newid yn yr hinsawdd<br>• Ystyriaeth well o'r economi sylfaenol<br>• Adran newydd yn amlinellu goblygiadau hir-dymor Covid-19, a’r adferiad o’r pandemig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **8** | **Canlyniadau a Monitro y FfDC**<br><br>Mân ddiwygiadau i nifer o Ganlyniadau i wella eu heglurdeb ac ymgorffori awgrymiadau o'r ymatebion ymgynghori.<br><br>Fframwaith newydd ar gyfer monitro a mesur effaith y FfDC. | Pennod 3 - Holl Ganlyniadau'r FfDC | • Newidiadau i ganlyniadau yr FfDC ym mhennod 3<br>• Cynnwys newydd ar fonitro effaith yr FfDC wedi'i gynnwys ym Mhennod 3<br>• Dogfen fonitro annibynnol newydd i eistedd ochr yn ochr â'r FfDC |
| **9** | **Polisïau FfDC**<br><br>Polisïau newydd eraill a gwelliannau cyffredinol i'r polisïau a thestun ategol cyfredol, er mwyn gwella eglurder a chysondeb. | Pennod 4, Pennod 5 - Pob polisi | • Newidiadau ac eglurhad i destun polisi a thestun ategol, yn seiliedig ar ymatebion ymgynghori.<br>• Strwythur cyson i bolisïau gofodol ym mhob rhanbarth<br>- Mae'r holl bolisïau ar Ardaloedd Twf Cenedlaethol yn defnyddio fformat cyson<br>- Cyfunwyd polisïau ar Gaerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd yn un polisi - Polisi arfaethedig 33<br>- Mae'r holl bolisïau ar Ardaloedd Twf Rhanbarthol yn defnyddio fformat cyson<br>- Polisïau llain las yn y Gogledd (Polisi arfaethedig 22) a de-Ddwyrain (Polisi arfaethedig 34) yn fwy cydnaws<br>- Polisi newydd sy'n galluogi llain las yn y De Orllewin - Polisi arfaethedig 30<br>• Mireinio ac egluro polisïau ar ddatblygu trefol (Polisïau drafft 1,2,3) - a'u hail-osod fel Polisïau arfaethedig 2,3 a 6<br>• Polisi newydd ar 'Cefnogi Cyfathrebiadau Digidol' (Polisi 13 arfaethedig) i ategu'r polisi presennol ar Gynllunio mewn Parthau Gweithredu Ffonau Symudol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | (Polisi 14 arfaethedig). Mae’r rhain yn gysylltiedig â Chanlyniad 8 y FfDC<br>• Aildrefnu polisïau cenedlaethol ym Mhennod 4 |
| **10** | **Diagramau Strategol - Cenedlaethol a Rhanbarthol**<br><br>Mae'r diagramau strategol sy'n dangos y strategaethau gofodol cenedlaethol a rhanbarthol wedi'u diwygio, i adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig i'r FfDC. | Pennod 4 - Tudalen 25<br>Pennod 5 - tudalennau 50, 57, 63 | • Diweddariadau i'r holl Ddiagramau Strategol sy'n adlewyrchu:<br>- newidiadau i'r ôl troed rhanbarthol<br>- polisïau trafnidiaeth newydd<br>- Ardaloedd Twf Rhanbarthol newydd |